

Eisteddfod yr Urdd – 2018

Cystadleuaeth Y Fedal Gyfansoddi dan 25 oed (349)

BEIRNIADAETH MEIRION WYNN JONES

Oren

Roedd *'Tri Symudiad ar gyfer Pumarwd Chwyth'* yn un o ddarnau mwyaf apelgar y gystadleuaeth. Mae yna elfen hypnotig yn yr agoriad – rhywbeth cyntefig yn perthyn i'r alawon, a'r ffordd maen nhw'n gwrthod cael eu cyfyngu gan amserau traddodiadol. Roedd un yn meddwl ar adegau am Igor Stravinsky yn ei ysgrifennu mwyaf Slafaidd (megis, *'The Rite of Spring'*).

Rhyfeddais sawl gwaith yn y tri symudiad yma ar hyder y cyfansoddwr wrth greu gwrthbwynt i'r offerynnau – y ffordd mae'r llinellau unigol yn plethu'n ddiymdrech. Gyda'r cyfansoddwr yma mae iaith gerddorol fwyaf cyfoes y gystadleuaeth, ac er ar adegau byddai'n anodd labelu 'cyweirnod' yn y ffordd draddodiadol, mae'r datblygiad cerddorol o hyd yn swnio'n naturiol.

Mae'r cyfansoddwr yma yn deall i'r dim sut i ddefnyddio tawelnodau ('rests') ac egni rhythmig i gynnal *momentum* y gerddoriaeth. Yn y symudiad canol mae'r ysgrifennu telynegol yn cyferbynnu'n dda gyda'r prysurdeb sydd o'i amgylch. Os oeddwn am wneud awgrym, byddwn yn gofyn am ddeunydd tebyg i bb. 34-44 ar ddechrau'r symudiad – mae'n hyfryd, a byddai'n braf i'w gael mwy nac unwaith!

Mae'r symudiad olaf yn cynnig momentau annisgwyl a phleserus – wedi'r agoriad *staccato*, hynod rhythmig, mae ymddangosiad alaw yn rhan y Corn yn F yn feistrolgar, gyda'r cyfeiliant *ostinato* yn rhan y Basŵn. Celfydd iawn.

Hoffais, gydol y tri symudiad yma y ffordd roedd yr offerynnau'n medru ymddangos mewn parau, fel deuawdau bach, ond drosodd mewn chwinciad.

Mi oedd *Oren* yn eithriadol o agos at y brig eleni. Anogaf y cerddor arbennig yma i barhau i fireinio a datblygu ei dalentau.